

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Clinig Deintyddol Dermaskin, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 04 Tachwedd 2025

Dyddiad cyhoeddi: 04 Chwefror 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	18
4.	Y camau nesaf	20
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	22
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	23

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Glinig Deintyddol Dermaskin, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 04 Tachwedd 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC ac un Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Cafwyd 15 o ymatebion gan gleifion ac un ymateb gan aelod o'r staff. Nid atebodd rhai o'r ymatebwyr rai o'r cwestiynau, gan olygu nad oedd ymatebion ar gyfer pob cwestiwn. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd Clinig Deintyddol Dermaskin yn cynnig amgylchedd dymunol i'r cleifion gael triniaeth. Gwelsom fod y staff yn groesawgar ac yn barchus, a dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion fod eu hurddas wedi cael ei gynnal. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir yn 'dda iawn.'

Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth ar gael yn y practis. Dywedodd y cleifion eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall opsiynau triniaeth a risgiau a manteision yr opsiynau hynny. Gwelsom fod y staff yn frwdfrydig ynghylch darparu triniaeth yn Gymraeg, ond roedd y ddarpariaeth ar gyfer ieithoedd eraill yn gyfyngedig.

Roedd y practis cyfan ar un llawr gyda mynediad gwastad ym mhob rhan ohono, ond nid oedd toiledau'r cleifion yn gwbl hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Diwygio'r wybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben sydd i'w gweld ar ei wefan ddeintyddol er mwyn eu gwneud yn benodol i'r gwasanaeth deintyddol a ddarperir.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amseroedd aros byr ar gyfer apwyntiadau i gael triniaethau dilynol
- Orlau agor estynedig drwy gydol yr wythnos sy'n cynnig hyblygrwydd i gleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y practis yn ymddangos yn lân iawn, roedd mewn cyflwr da ac wedi'i addurno i safon uchel. Roedd yr ardaloedd i gleifion yn gyfforddus ac nid oedd unrhyw beryglon, gan gynnig amgylchedd diogel i dderbyn gofal.

Roedd prosesau rheoli meddyginiaethau priodol ar waith, roedd tymheredd yr oergelloedd yn cael ei fonitro ac roedd padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel. Roedd pecyn cymorth cyntaf a hyfforddiant staff ar waith. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfarpar brys ar gael, ond roedd angen archebu un llwybr anadlu newydd.

Ar y cyfan, roedd y trefniadau diogelwch tân yn dda, ond roedd yn anodd agor un allanfa frys yn ystod yr arolygiad. Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer

diogelu plant ac oedolion agored i niwed. Roedd arweinydd wedi'i benodi ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant priodol ar y pwnc.

Roedd cofnodion deintyddol y cleifion yn dda ar y cyfan ond cafodd rhai gwelliannau eu nodi.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Datblygu'r polisi ar gyfer nodi, asesu a rheoli risgiau yn y practis
- Gosod biniau gwastraff nwyddau mislif yn nhoiledau'r staff a'r cleifion
- Tynnu plygiau a gorchuddio neu selio gorlifoedd ym mhob sinc golchi dwylo yn y ddeintyddfa
- Cwblhau rhestrau gwirio dyddiol ar gyfer y ddeintyddfa a'r broses ddihalogi
- Sicrhau bod yr ystafell a ddefnyddir i storio gwastraff clinigol yn cael ei chadw dan glo.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Deintyddfa fodern wedi'i chynllunio'n dda gyda chyfarpar sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda
- Roedd chwistrellau diogelwch yn cael eu defnyddio ac roedd siart lif ar gael i gyfeirio ati'n gyflym er mwyn helpu'r staff pe bai anaf a achosir gan nodwydd
- Roedd cydymffurfiaeth dda mewn perthynas â defnyddio peiriannau pelydr-X ac roedd arwyddion priodol ar ddrysau'r ddeintyddfa.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom bractis a oedd yn cael ei redeg yn effeithiol, gyda strwythur rheoli clir ar waith. Roedd yn ymddangos bod y staff yn cael eu cefnogi yn eu rolau ac roedd tystiolaeth o arfarniadau rheolaidd. Roedd proses recriwtio briodol ar waith ac roedd y gwiriadau perthnasol yn cael eu cwblhau i sicrhau bod y staff yn addas i weithio yn y lleoliad.

Roedd amrywiaeth dda o bolisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig cynhwysfawr ar waith a oedd ar gael yn hawdd i'r staff, a nodwyd bod lefelau cydymffurfiaeth da iawn â rhwymedigaethau proffesiynol.

Er i ni nodi bod angen gwneud rhai gwelliannau, roeddem o'r farn bod y practis yn cael ei reoli'n dda ar y cyfan.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd lefel dda o gydymffurfio â hyfforddiant staff gorfodol

- Roedd yn gefnogol iawn o ddatblygiad y staff
- Roedd canlyniadau arolygon boddhad cleifion ar gael i'r cleifion eu darllen
- Roedd cynllun da ar gyfer cynnal archwiliadau clinigol ar waith fel rhan o weithgarwch gwella ansawdd y practis.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur AGIC yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd pob un o'r 15 o ymatebwyr fod y gwasanaeth yn 'dda iawn.'

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

"Mae'r staff yn gyfeillgar iawn, ac mae'r clinig bob amser yn lân ac yn gyfforddus iawn."

"...roedd y profiad cyfan yn rhagorol... mae'r staff, gan gynnwys staff y dderbynfa bob amser yn rhagorol, yn gynnes, yn gyfeillgar ac yn barod i helpu hefyd."

"Mae pawb bob amser yn broffesiynol ac yn gyfeillgar iawn. Byddwn yn teimlo'n hyderus yn ei argymell i ffrind."

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Gwelsom fod gwybodaeth berthnasol am ofal iechyd deintyddol ar gael yn yr ardaloedd aros i gleifion, gan gynnwys gwybodaeth am roi'r gorau i smygu, gofal ataliol y geg a deiet. Roedd costau triniaethau a gweithdrefnau cwyno'r practis hefyd yn cael eu harddangos ac roeddent ar gael ar wefan y practis.

Roedd gan y practis ddatganiad o ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion cyfredol, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Er bod y ddwy ddogfen hefyd ar gael ar wefan y practis, roeddent yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaeth deintyddol a'r clinig laser cysylltiedig, er bod gan y gwasanaeth laser wefan ar wahân. Roeddem o'r farn na fyddai hyn yn eglur i'r cleifion a gwnaethom awgrymu y dylid diwygio'r ddwy ddogfen ar y wefan ddeintyddol i fod yn fwy penodol i'r gwasanaeth deintyddol.

Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig ddiwygio'r wybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben sydd ar wefan ddeintyddol y gwasanaeth i'w gwneud yn benodol i'r gwasanaeth deintyddol a ddarperir.

Roedd enwau'r tîm deintyddol a'u rhifau cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael eu harddangos yn glir. Gwelsom arwyddion yn rhoi gwybod i ymwelwyr nad oedd smygu yn cael ei ganiatáu ar y safle, yn unol â'r ddeddfwriaeth.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiynau yn holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i gynnal iechyd da yn y geg ac roedd pob un ond un yn cytuno fod y staff wedi esbonio gofal y geg iddynt mewn ffordd y gallent ei deall.

Gofal Urddasol a Pharchus

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y staff yn groesawgar, yn gyfeillgar ac yn barchus iawn. Er bod desg y dderbynfa a'r ardal aros yn yr un ystafell, dywedwyd wrthym y gellid cynnal trafodaethau preifat yn y swyddfa y tu ôl i'r dderbynfa neu mewn ystafell ymgynghori. Roedd polisi cyfrinachedd cyfredol wedi cael ei lofnodi gan bob aelod o'r staff ac roedd yn rhan o'u contractau cyflogaeth.

Dywedwyd wrthym fod drysau'r ddeintyddfa yn cael eu cau yn ystod triniaethau er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd bleinds wedi cael eu gosod ar ffenestri'r ddeintyddfa er mwyn cyfyngu ar yr hyn y gellid ei weld o'r tu allan.

Gwelsom fod naw egwyddor ymarfer moesegol craidd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) i'w gweld yn glir yn ardal y dderbynfa.

Roedd 14 o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch yn y practis, ond roedd yr ymatebydd arall yn anghytuno.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion eu bod wedi cael digon o wybodaeth i deall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael a'u bod wedi cael digon o wybodaeth i deall y risgiau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r opsiynau hynny. Roedd pawb yn cytuno eu bod wedi cael gwybodaeth glir am brisiau cyn iddynt gael triniaeth.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr wrthym eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth a gwnaethant gadarnhau bod y staff wedi gwirio eu hanes meddygol cyn iddynt gael triniaeth.

Amserol

Gofal Amserol

Dywedwyd wrthym fod staff y dderbynfa yn rhoi gwybod i'r cleifion am unrhyw oedi o ran amseroedd apwyntiadau. Roedd amseroedd aros rhwng triniaethau yn fyr ac roedd apwyntiadau dilynol yn cael eu cynnig o fewn wythnos neu ddwy. Dywedwyd wrthym y gallai cleifion yr oedd angen triniaeth frys arnynt ffonio neu anfon e-bost unrhyw bryd ac y byddent fel arfer yn cael eu gweld ar yr un diwrnod.

Roedd oriau agor a manylion cyswllt brys y practis wedi'u harddangos ac roedd modd eu gweld o'r tu allan i'r safle. Roeddent hefyd ar gael ar wefan y practis. Gwnaethom nodi fod amseroedd agor estynedig drwy gydol yr wythnos a bod apwyntiadau ar gael ar fore dydd Sadwrn er mwyn cynnig hyblygrwydd i blant ysgol a chleifion sy'n gweithio oriau busnes safonol.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion ei bod hi'n hawdd iawn cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Er y dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai problem ddeintyddol frys yn codi, dywedodd dau ymatebydd nad oeddent yn gwybod.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod y wybodaeth ysgrifenedig a oedd yn cael ei harddangos yn y practis ar gael yn Saesneg yn bennaf, ond roedd rhai aelodau o'r staff yn dysgu Cymraeg ac yn gwisgo laniardau a oedd yn dangos eu parodrwydd i siarad Cymraeg pe byddai angen. Dywedwyd wrthym fod y staff yn gofyn i gleifion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf ddod â rhywun gyda nhw a allai gyfieithu er mwyn sicrhau bod y staff yn cael cydsyniad ar sail gwybodaeth. Fodd bynnag, roeddem o'r farn fod risgiau yn gysylltiedig â'r drefn hon gan nad oedd modd gwarantu bod y trydydd unigolyn hwn yn gallu cyfieithu'n gywir. Felly, ni chawsom sicrwydd bod y deintydd yn gallu cyfathrebu'n effeithiol â'r cleifion hyn.

Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y ffordd y mae'r practis yn bwriadu mynd i'r afael ag anghenion iaith unigol y cleifion.

Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a atebodd holiadur AGIC yn nodi mai Saesneg oedd eu dewis iaith, nododd dau ymatebydd mai Cymraeg ydoedd. Gwnaethant gadarnhau eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r Gymraeg yn y practis gan ddweud bod gwybodaeth gofal iechyd ar gael iddynt yn eu dewis iaith.

Gellid trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb yn y dderbynfa, gan sicrhau y gallai cleifion heb fynediad at ddyfeisiau digidol drefnu triniaethau. Roedd rhai fersiynau hawdd eu deall o daflenni ar gael, a gellid argraffu copïau o ddogfennau mewn print bras yn ôl yr angen. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai'r staff yn cynnig darllen a chwblhau ffurflenni ar gyfer cleifion ag amhariad ar eu golwg neu anawsterau darllen. Gwelsom fod system dolen sain wedi'i gosod i helpu cleifion ag amhariad ar eu clyw.

Hawliau a Chydraddoldeb

Roeddem o'r farn bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu yn y practis mewn ffordd a oedd yn cydnabod anghenion a hawliau'r cleifion. Roedd gan y practis bolisi cydraddoldeb a hawliau dynol cyfredol a oedd yn cynnwys bwllo ac aflonyddu yn y gweithle. Cawsom ein sicrhau y byddai hawliau cleifion trawsryweddol yn cael eu cynnal ac y byddai enwau a rhagenwau a ffefrir yn cael eu defnyddio yn ôl yr angen.

Cadarnhaodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion nad oeddent wedi profi gwahaniaethu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth.

Roedd y practis wedi'i leoli ar y llawr gwaelod a oedd i lawr cyfres o risiau o ymyl y ffordd. Roedd ramp ar ben pellaf yr adeilad er mwyn i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn allu cyrraedd y practis. Er ein bod o'r farn bod y practis yn addas i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn gyda drysau llydan a lloriau gwastad, gwelsom nad oedd y toiledau yn hygyrch. Roedd hyn wedi'i nodi yn y daflen wybodaeth i gleifion ac roedd hysbysiad yn datgan nad oedd y practis yn gallu helpu i drosglwyddo cleifion o gadeiriau olwyn i'r cadeiriau trin.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli Risg

Ar y cyfan, roedd yn ymddangos bod Clinig Deintyddol Dermaskin mewn cyflwr da gyda deintyddfa fawr wedi'i goleuo'n dda. Y tu mewn i'r adeilad, roedd yr amgylchedd wedi'i addurno a'i ddodrefnu i safon uchel ac roedd yr ardal aros i gleifion yn gyfforddus heb unrhyw beryglon. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd polisi ar gyfer cynnal a chadw'r adeilad er mwyn helpu i sicrhau bod y safle bob amser yn parhau'n addas at y diben. Gwnaethom godi hyn â'r rheolwr cofrestredig, a drefnodd i bolisi gael ei ddrafftio yn ystod yr arolygiad.

Roedd gan y practis bolisi parhad busnes, ynghyd â rhestr o'r gweithdrefnau i'w dilyn pe na fyddai'n bosibl darparu gwasanaethau deintyddol yn sgil argyfwng neu drychineb. Roedd hyn yn cynnwys trefniadau gyda nifer o bractisau deintyddol yng Nghaerdydd ac ardal De Cymru. Gwelsom bolisiau cyfredol yn ymwneud ag iechyd a diogelwch cleifion a staff yn y practis. Fodd bynnag, roedd y polisi ar gyfer asesu a rheoli risgiau yn y practis yn fyr ac nid oedd yn cynnwys digon o fanylion.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddatblygu polisi ar gyfer nodi, asesu a rheoli risgiau yn y practis, a rhoi copi i AGIC pan fydd wedi'i gwblhau.

Roedd trefniadau addas i'r staff newid eu dillad ac i storio eu heiddo personol yn ddiogel. Roedd poster iechyd a diogelwch cymeradwy a thystysgrif yswiriant atebolrwydd y cyflogwr yn cael ei harddangos fel sy'n ofynnol.

Dangoswyd Adroddiad ar Gyflwr Gosodiadau Trydanol cyfredol i ni, a gaiff ei gynnal bob pum mlynedd, cofnodion Profion Offer Cludadwy cyfredol a thystysgrif diogelwch nwy blynyddol dilys.

Ar y cyfan, gwelsom fod gan y practis drefniadau da ar waith mewn perthynas â diogelwch tân, gydag asesiad risg tân wedi'i gwblhau a thystiolaeth ei fod yn cael ei adolygu bob blwyddyn. Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch tân ac roedd cyfran addas hefyd wedi cwblhau hyfforddiant wardeiniaid tân. Roedd y diffoddwyr tân wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac roedd arwyddion priodol i'w gweld ar gyfer gwagio'r adeilad. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd modd agor yr allanfa dân gefn yn hawdd. Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith â'r rheolwr cofrestredig. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Roedd polisi atal a rheoli heintiau priodol ar waith, a oedd yn cynnwys enw'r arweinydd dynodedig. Roedd cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol ar gael yn hwylus i'r staff ei ddefnyddio.

Roedd y ddeintyddfa yn lân yr olwg ac wedi'i dodrefnu'n addas i sicrhau y gellid ei glanhau'n effeithiol, ac roedd cyfleusterau hylendid dwylo ar gael yn y ddeintyddfa ac yn y toiledau. Fodd bynnag, nid oedd biniau gwastraff nwyddau mislif yn nhoiledau'r cleifion na'r staff, a gwelsom fod plwg a gorlif yn y sinc yn y ddeintyddfa, sy'n groes i Femorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol:

- **Gosod biniau gwastraff nwyddau mislif yn nhoiledau'r staff a'r cleifion**
- **Sicrhau bod plygiau'n cael eu tynnu a bod gorlifoedd yn cael eu gorchuddio neu eu selio ym mhob sinc golchi dwylo yn y ddeintyddfa.**

Roedd y practis yn defnyddio chwistrellau untro offer miniog mwy diogel ac roedd system gwaredu ddiogel ar waith. Gwnaethom atgoffa'r staff bod yn rhaid rhoi label addas ar y biniau offer miniog pan fyddant yn llawn. Roedd siartiau llif y gellir cyfeirio atynt yn gyflym i'w gweld yn y ddeintyddfa er mwyn helpu'r staff pe bai anaf a achosir gan nodwydd. Roedd meddyg hefyd ar gael ar y safle i roi cyngor a chynnal triniaethau a phrofion gwaed pe byddai angen.

Dangosodd y staff y broses ar gyfer dihalogi offer deintyddol aml dro, a oedd yn cynnwys system addas i gludo offer yn ddiogel o amgylch y practis. Fodd bynnag, roeddem o'r farn y gellid rhoi trefniadau llywodraethu ychwanegol ar waith fel rhan o'r cam pecynnu drwy sicrhau bod yr unigolyn a oedd yn cyflawni'r broses ddihalogi yn llofnodi'r pecynnau wedi'u sterileiddio ar ôl iddynt gael eu selio.

Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y pecynnau yn cael eu llofnodi gan yr unigolyn a gyflawnodd y broses ddihalogi fel trefniant llywodraethu ychwanegol.

Gwelsom dystiolaeth fod gwaith cynnal a chadw rheolaidd a gwiriadau cyfnodol o'r cyfarpar dihalogi yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, er i ni glywed bod gwiriadau yn cael eu cynnal ar ddechrau a diwedd y dydd, gwelsom nad oeddent yn cael eu cofnodi. Yn yr un modd, nid oedd rhestrau gwirio dyddiol ar gyfer y ddeintyddfa yn cael eu cwblhau.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwiriadau dyddiol ar gyfer y ddeintyddfa a'r broses ddihalogi yn cael eu cwblhau a'u cadw.

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau golchi dwylo wedi'u cwblhau a'i bod hi'n bryd cynnal yr archwiliad atal a rheoli heintiau blynyddol. Gwnaethom drafod cysylltu ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i gael yr adnoddau archwilio atal a rheoli heintiau.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion wrthym fod y practis yn lân iawn a bod y staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau, yn eu barn nhw. Dywedodd un ymatebydd:

“Fel nyrs gyda gwybodaeth am atal a rheoli heintiau, gwelais fod arferion rhagorol yn cael eu dilyn. Roedd y staff yn cydymffurfio â phrotocolau hylendid dwylo, cyfarpar diogelu personol a glanhau cyfarpar, a roddodd sicrwydd i mi fod y gofal yn ddiogel ac o safon broffesiynol.”

Gwelsom fod contract cyfredol ar waith i drosglwyddo gwastraff clinigol yn ddiogel o'r practis a bod gwastraff clinigol a gynhyrchir gan y practis yn cael ei storio mewn cynwysyddion priodol cyn iddo gael ei gasglu. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd yr ystafell a ddefnyddir i storio gwastraff yn wedi'i chloi ac felly y byddai ymwelwyr yn gallu mynd iddi heb awdurdod. Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith â'r rheolwr cofrestredig. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff yr ystafell a ddefnyddir i storio gwastraff clinigol ei chadw dan glo.

Gwnaethom edrych ar ffeiliau'r staff a gwelsom fod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol ar atal a rheoli heintiau.

Rheoli Meddyginiaethau

Roedd polisi priodol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn y practis. Gwelsom fod meddyginiaethau yn cael eu trin a'u storio'n ddiogel a bod prosesau addas ar waith ar gyfer archebu, gwirio a chael gwared ar eitemau wedi darfod. Gwnaethom nodi bod tymheredd yr oergelloedd yn cael ei fonitro ac y byddai rhybudd yn cael ei anfon dros y ffôn pe byddai'n mynd y tu allan i'r ystod dderbyniol.

Roedd y padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel, ac roedd y staff yn ymwybodol o'r cynllun cerdyn melyn ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw adweithiau andwyol i feddyginiaethau. Ar ôl trafodaeth â'r rheolwr cofrestredig, cafodd

hysbysiadau eu harddangos i atgoffa cleifion i roi gwybod i'r practis am unrhyw newidiadau i'w hanes meddygol.

Roedd polisi argyfyngau meddygol priodol ar waith a oedd yn seiliedig ar y canllawiau adfywio cenedlaethol. Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar adfywio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Gwnaethom archwilio'r cyfarpar a'r meddyginiaethau a fyddai'n cael eu defnyddio mewn argyfwng yn y practis a gwnaethom gadarnhau bod y dyddiadau ar yr holl feddyginiaethau yn gyfredol. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod un o'r pum maint o lwybrau anadlu oroffaryngaidd a argymhellwyd fel rhan o'r cyfarpar brys ar goll. Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith â'r rheolwr cofrestredig. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Gwelsom fod gwaith cynnal a chadw a gwasanaethu ar gyfer y silindr ocsigen wedi cael ei gynnal a bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol i'w ddefnyddio. Gwelsom fod y pecyn cymorth cyntaf yn cynnwys stoc briodol a bod yr holl eitemau'n gyfredol a bod nifer priodol o staff wedi'u hyfforddi i ddarparu cymorth cyntaf.

Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol

Gwelsom fod cyfarpar addas ar gael yn y ddeintyddfa i ddarparu triniaethau deintyddol diogel ac effeithiol. Roedd yr holl gyfarpar clinigol a welsom yn lân yr olwg ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

Gwnaethom hefyd adolygu dogfennaeth a oedd yn dangos bod y cyfarpar pelydr-X yn cael ei gynnal a'i gadw a'i brofi yn unol â'r gofynion a bod asesiad risg ymbelydredd ar waith. Gwelsom hefyd fod y ddogfennaeth ofynnol ar gael i ddangos bod trefniadau diogel ar waith ar gyfer defnyddio'r cyfarpar pelydr-X.

Gwelsom fod gwerthusiadau clinigol a chyfiawnhad ar gyfer pob archwiliad pelydr-X wedi'u nodi yng nghofnodion y cleifion. Dywedwyd wrthym fod y deintydd yn rhoi gwybod i gleifion ar lafar am y risgiau a'r manteision sy'n gysylltiedig â phelydrau-X deintyddol.

Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o staff a oedd yn gysylltiedig â'r broses o gynnal archwiliadau pelydr-X wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, a gwelsom dystiolaeth o hyn yn y ffeiliau staff a welsom.

Diogelu Plant ac Oedolion

Gwelsom fod polisi cynhwysfawr ar waith mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion agored i niwed. Roedd siartiau llif y gellir cyfeirio atynt yn gyflym, a oedd

yn cynnwys manylion cyswllt y timau diogelu lleol perthnasol, ar gael i helpu'r staff pe byddai pryder yn codi.

Roedd gan y practis arweinydd diogelu dynodedig a oedd yn rhoi cymorth ac arweiniad i'r staff ac roedd fersiwn ddiweddaraf Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gael i'r unigolyn hwnnw. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ac roeddent yn ymddangos yn wybodus am brosesau amddiffyn plant ac oedolion.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Gwelsom fod digon o staff hyfforddedig yn y practis i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd y staff yn glir o ran eu rolau a'u cyfrifoldebau a rhoddwyd sicrwydd i ni fod y canllawiau statudol yn cael eu dilyn wrth ddarparu gofal deintyddol. Gwelsom fod rhestrau gwirio a argymhellir i leihau'r risg o dynnu'r dant anghywir wedi cael eu cyflwyno yn ddiweddar.

Cofnodion Cleifion

Gwelsom fod system addas ar waith i sicrhau bod y cofnodion yn cael eu rheoli'n ddiogel. Dywedwyd wrthym fod cofnodion yn cael eu cadw yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Gwnaethom edrych ar gofnodion gofal deintyddol saith claf. Roedd yr holl gofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn cynnwys dynodyddion cleifion addas, y rheswm dros yr apwyntiad, a hanes meddygol llawn. Roedd cydsyniad ar sail gwybodaeth wedi'i gofnodi ar gyfer y driniaeth a oedd yn cael ei darparu a gwelsom dystiolaeth o siartiau sylfaenol llawn ac archwiliadau y tu allan a'r tu mewn i'r geg. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai hepgoriadau yn y cofnodion. Roedd angen cynnwys rhagor o fanylion yn yr adroddiadau pelydr-X, roedd angen cofnodi'r atgyfeirwyr yn fwy cyson, ac roedd angen cofnodi i ddangos bod risgiau a manteision pelydrau-X wedi cael eu hesbonio. Nodwyd gennym hefyd nad oedd ffactorau risg fel pydredd, profion sgrinio ar gyfer canser y geg na dewisiadau iaith y cleifion yn cael eu cofnodi.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol:

- Rhoi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'n canfyddiadau mewn perthynas â chyflawnder cofnodion y cleifion
- Sicrhau bod dewis iaith y cleifion a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion ieithyddol yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Roedd strwythur rheoli clir ar waith, gyda'r prif ddeintydd yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd gyda chymorth tîm ehangach y practis. Roeddem o'r farn bod y practis yn cael ei arwain yn dda a bod ymrwymiad clir i ddarparu gwasanaeth o safon uchel. Dywedwyd wrthym fod y practis wedi trefnu diwrnodau adeiladu tîm, ac roedd yn amlwg bod ysbryd tîm da yn y practis.

Roedd trefniadau addas ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol a hysbysiadau diogelwch brys â'r staff drwy ddefnyddio grwpiau WhatsApp a chyfarfodydd tîm misol. Gwelsom fod cofnodion o gyfarfodydd staff yn cael eu cadw a'u rhannu â'r staff. Gwnaethom drafod sut y gellid gwella strwythur y cofnodion drwy ychwanegu agenda ac unrhyw gamau gweithredu a nodwyd.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau ysgrifenedig ar gael i'r staff i'w cefnogi yn eu rolau. Gwnaethom adolygu nifer o bolisiau a gwelsom eu bod wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u bod wedi'u llofnodi gan y staff i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y cynnwys.

Dywedodd yr aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC y byddai'n argymhell y practis fel lle da i weithio ynddo. Roedd yn cytuno bod cyfleoedd teg a chyfartal ar gael iddo yn y gweithle, ac roedd yn teimlo bod y gweithle yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Roedd tîm y practis yn cynnwys dau ddeintydd, a thair nyrs ddeintyddol. Roeddem o'r farn bod cymysgedd sgiliau a nifer y staff yn briodol ar gyfer y gwasanaethau deintyddol a ddarperir.

Roedd polisi recriwtio cyfredol ar waith yn y practis a oedd yn cadarnhau bod gwiriadau cyn cyflogi boddhaol yn cael eu cynnal ar gyfer aelodau newydd o staff. Gwelsom fod proses sefydlu addas ar waith i sicrhau bod aelodau newydd o staff yn ymwybodol o weithdrefnau'r practis a'u bod yn gymwys i gyflawni eu rôl. Wrth edrych ar ffeiliau'r staff, gwelsom fod y staff wedi cael arfarniadau blynyddol.

Gwelsom fod gan bob aelod o'r staff dystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a'u bod wedi cyflwyno datganiadau blynyddol i gadarnhau nad

oedd y statws hwn wedi newid. Roedd tystiolaeth o yswiriant indemniad, cofrestriad cyfredol gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chofnodion sgrinio ieuchyd eraill ar gael ar gyfer pob aelod o'r staff. Cawsom wybod bod cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau'r gweithlu yn cael ei monitro gan y rheolwr cofrestredig.

Gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau yn y practis. Gwelsom fod cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant gorfodol yn dda a bod y tystysgrifau'n cael eu cadw yn ffeiliau'r staff. Gwelsom fod y practis yn gefnogol iawn o ddatblygiad y staff a gwelsom sawl enghraifft lle roedd y staff wedi cael hyfforddiant ychwanegol i wella'r gwasanaeth a ddarperir ac i gamu ymlaen yn eu gyrfaedd.

Diwylliant

Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Cafodd trefniadau eu disgrifio ar gyfer gofyn am adborth gan y cleifion am eu profiadau o ddefnyddio'r practis, gan gynnwys adolygiadau ar-lein drwy ddefnyddio cod QR a ddarperir gan y practis. Roedd blwch awgrymiadau ar gael yn yr ardal aros i alluogi cleifion nad oedd ganddynt ddyfeisiau digidol i roi adborth yn ddienw.

Dywedwyd wrthym fod adborth yn cael ei adolygu a'i drafod yn rheolaidd â'r tîm rheoli. Yn ystod yr arolygiad, cawsom ymateb cadarnhaol i'r adborth y gwnaethom ei roi, a gwelsom fod hyn hefyd yn wir mewn ymateb i sylwadau gan gleifion gyda chanlyniadau arolwg boddhad yn cael eu rhoi yn ffolder gwybodaeth y practis.

Gwelsom fod gweithdrefn gwyno'r practis i'w gweld yn yr ardal aros. Roedd hyn yn nodi'r aelod o staff a oedd wedi'i benodi i ymdrin â chwynion, ac yn cynnwys manylion sefydliadau eraill y gallai'r cleifion fynd atynt os nad oedd yn fodlon ar yr ymateb. Roedd ffolder cwynion ar gael ond ni fu unrhyw gwynion ffurfiol hyd yn hyn.

Dysgu, Gwella ac Ymchwil

Gweithgareddau Gwella Ansawdd

Gwelsom fod cynllun da ar waith ar gyfer cynnal archwiliadau fel rhan o weithgarwch gwella ansawdd y practis. Rhoddwyd enghreifftiau i ni a oedd wedi cael eu cwblhau'n ddiweddar gan gynnwys cofnodion cleifion, hylendid dwylo, rhagnodi gwrthfotigau ac ansawdd radiograffau. Gwnaethom drafod y posibilrwydd o gynnwys archwiliadau rhoi'r gorau i smygu a gwastraff gofal ieuchyd fel rhan o'i raglen archwilio arfaethedig.

Gwnaethom drafod defnyddio pecynnau cymorth ac archwiliadau Addysg a Gwella Iechyd Cymru, a defnyddio meddalwedd gydymffurfiaeth er mwyn helpu i drefnu gweithgareddau gwella ansawdd yn y dyfodol.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom nad oedd modd agor yr allanfa dân gefn yn hawdd.	Gallai fod risg i'r cleifion a'r staff pe bai argyfwng tân.	Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith â rheolwr cofrestredig y practis.	Cafodd gwaith cynnal a chadw ei drefnu i ymdrin â'r mater a chafodd ei gwblhau yn ystod yr arolygiad.
Gwelsom nad oedd yr ystafell a ddefnyddir i storio gwastraff clinigol wedi'i chloi ac felly y byddai ymwelwyr yn gallu mynd iddi heb awdurdod	Gallai fod risg o haint i'r cleifion a'r staff.	Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith â rheolwr cofrestredig y practis.	Cafodd yr ystafell ei chloi yn ystod yr arolygiad.
Nodwyd gennym fod un o'r pum maint o lwybrau anadlu oroffaryngaidd a argymhellwyd fel rhan o'r cyfarpar brys ar goll.	Gallai fod risg i'r cleifion a'r staff pe bai argyfwng.	Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith â rheolwr cofrestredig y practis.	Archebwyd llwybr anadlu newydd yn fuan ar ôl yr arolygiad.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Clinig Deintyddol Dermaskin

Dyddiad yr arolygiad: 04 Tachwedd 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Clinig Deintyddol Dermaskin

Dyddiad yr arolygiad: 04 Tachwedd 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Roedd y daflen wybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben ar gael ar wefan y practis. Fodd bynnag, roeddent yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaeth deintyddol a'r clinig laser cysylltiedig, er bod gan y gwasanaeth laser wefan ar wahân	Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig ddiwygio'r wybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben sydd i'w gweld ar wefan ddeintyddol y gwasanaeth i'w gwneud yn benodol i'r gwasanaeth deintyddol a ddarperir.	Rheoliadau 5(2) a 6(2)	Byddwn yn llunio Datganiad o Ddiben a Thaflen Wybodaeth i Gleifion arall sy'n benodol i'r adran ddeintyddol ac yn rhannu'r fersiynau hyn ar ein gwefan	Helen Rimmer	18 Ionawr 2026
Dywedwyd wrthym fod y staff yn gofyn i gleifion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf ddod â rhywun gyda nhw a allai gyfieithu er	Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y ffordd y mae'r practis yn bwriadu mynd i'r	Rheoliad 13(1)(a)	Mae polisiâu ar waith i sicrhau bod y staff yn cael cydsyniad dilys ar sail gwybodaeth. Lle na ellir cael cydsyniad llawn ar sail gwybodaeth oherwydd	Helen Rimmer	Mae'r polisi hwn eisoes ar waith yn y clinig

mwyn sicrhau bod y staff yn cael cydsyniad ar sail gwybodaeth. Fodd bynnag, roeddem o'r farn bod risgiau yn gysylltiedig â'r drefn hon gan nad oedd modd gwarantu bod y trydydd unigolyn hwn yn gallu cyfieithu'n gywir.	afael ag anghenion iaith unigol y cleifion.		analluogrwydd neu fethiant i ddeall, caiff y driniaeth ei hatal mewn modd sensitif oni bai bod argyfwng. Os nad Saesneg yw iaith gyntaf claf a bod y sefyllfa yn amharu ar allu'r unigolyn i ddeall y wybodaeth a roddir iddo ac i roi cydsyniad ar sail gwybodaeth, mae'n bosibl y byddwn yn gohirio unrhyw driniaeth hyd nes y bydd cyfieithydd swyddogol yn gallu bod yn rhan o'r broses ymgynghori <u>Nodir hyn yn ein Datganiad o Ddiben a'n Taflen Wybodaeth i Gleifion</u>		
Roedd y polisi ar gyfer asesu a rheoli risgiau yn fyr ac nid oedd yn cynnwys digon o fanylion.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddatblygu polisi ar gyfer nodi, asesu a rheoli risgiau yn y practis, a rhoi copi i AGIC pan fydd wedi'i gwblhau.	Rheoliad 8(1)(e)	Mae'r polisi cyffredinol wedi cael ei ddatblygu er mwyn cynnig trosolwg o'r holl asesiadau risg a	Helen Rimmer	wedi'i gwblhau

			pholisiau cysylltiedig sydd ar waith ar hyn o bryd.		
Nid oedd biniau gwastraff nwyddau mislif yn nhoiledau'r cleifion na'r staff, a gwelsom fod plwg a gorlif yn y sinc yn y ddeintyddfa.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol: - Gosod biniau gwastraff nwyddau mislif yn nhoiledau'r staff a'r cleifion - Sicrhau bod plygiau'n cael eu tynnu a bod gorlifoedd yn cael eu gorchuddio neu eu selio ym mhob sinc golchi dwylo yn y ddeintyddfa.	Rheoliad 13(1)(a) a (22)(a) a (c) WHTM 01-05	Gosodwyd biniau gwastraff nwyddau mislif Tynnwyd y plygiau, a bydd gorlifoedd naill ai'n cael eu selio neu bydd sinciau newydd yn cael eu gosod ym mis Ionawr	Helen Rimmer Helen Rimmer	Wedi'i gwblhau 25 Ionawr 26
Roeddem o'r farn y gellid rhoi trefniadau llywodraethu ychwanegol ar waith fel rhan o'r cam pecynnu ar gyfer offer wedi'u dihalogi.	Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y pecynnau yn cael eu llofnodi gan yr unigolyn a gyflawnodd y broses ddihalogi fel trefniant llywodraethu ychwanegol.	Rheoliad 13(3)(b)	Bydd yr unigolyn a gyflawnodd y weithdrefn ddihalogi yn nodi ei flaenlythrennau wrth ymyl y dyddiad dod i ben ar y deunydd pecynnu.	Helen Rimmer	Wedi'i gwblhau

Gwelsom nad oedd gwiriadau ar ddechrau a diwedd y dydd, a oedd yn cael eu cynnal fel rhan o'r broses ddihalogi, yn cael eu cofnodi. Yn yr un modd, nid oedd rhestrau gwirio dyddiol ar gyfer y ddeintyddfa yn cael eu cwblhau.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod rhestrau gwirio dyddiol ar gyfer y ddeintyddfa a'r broses ddihalogi yn cael eu cofnodi a'u cadw.	Rheoliad 13(3)(b)	Mae colofnau ychwanegol wedi cael eu hychwanegu at y cofnodlyfr dihalogi er mwyn nodi pwy sydd wedi cwblhau'r gwiriadau dyddiol perthnasol bob dydd	Helen Rimmer	Wedi'i gwblhau
Gwelsom nad oedd yr ystafell a ddefnyddir i storio gwastraff clinigol wedi'i chloi.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff yr ystafell a ddefnyddir i storio gwastraff clinigol ei chadw dan glo.	Safon Ansawdd - Diogel	Mae clo wedi cael ei osod ar y drws	Helen Rimmer	Wedi'i gwblhau
Gwnaethom nodi rhai hepgoriadau yn y cofnodion. Roedd angen cynnwys rhagor o fanylion yn yr adroddiadau pelydr-X ac nid oedd ffactorau risg, profion sgrinio ar gyfer canser y geg na dewisiadau iaith y cleifion yn cael eu cofnodi.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol: Rhoi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'n canfyddiadau mewn perthynas â chyflawnder cofnodion y cleifion	Rheoliad 20(1)(a)(i) ac (ii)	Mae templed manylach wedi cael ei ychwanegu at gofnodion y cleifion i sicrhau bod lefelau pob ffactor risg yn cael eu cofnodi pan fyddant yn isel.	Helen Rimmer	Wedi'i gwblhau

- Sicrhau bod dewis iaith y cleifion a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion ieithyddol yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion.

Rheoliad
13(1)(a)

Mae'r templed ar gyfer adroddiadau radiograffig wedi cael ei ddatblygu ymhellach er mwyn annog staff i gofnodi rhagor o wybodaeth am ddadansoddi.

Caiff profion sgrinio ar gyfer canser y geg eu cynnal yn rheolaidd ar bob claf a chaiff hyn ei gofnodi yn y nodiadau o dan ei archwiliad meinweoedd meddal. Nid oedd lefel y risg yn cael ei chofnodi pan oedd lefel y risg yn isel. Mae'r asesiad risg hwn bellach wedi cael ei ychwanegu at y templed ar gyfer nodiadau'r cleifion i sicrhau ei fod bob amser yn cael ei gofnodi, ni waeth beth yw'r lefel.

Mae cwestiwn wedi cael ei ychwanegu at y ffurflen

		hanes meddygol mewn perthynas â chofnodi dewis iaith y cleifion.	
--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Helen Rimmer

Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig / Pennaeth

Dyddiad: 18 Rhagfyr 2025